# UNED : Y FUWCH EIDION – CYFLWR CORFFOROL A SGÔR CYFLWR CORFFOROL

CYFLWYNIAD

ASESIR SGÔR CYFLWR CORFFOROL DRWY DRAFOD YR ANIFAIL MEWN 3 LLE ALLWEDDOL AR Y CORFF :

- Bôn y gynffon
- Y Lwyn
- Yr Asennau

*Gweler Darlun HCC Gwneud y Gorau o'ch Buches Sugno tud 14*

SGORIAU CYFLWR CORFFOROL

| Sgôr cyflwr corfforol | Bôn y gynffon | Lwyn | Asennau |
|---|---|---|---|
| 2 | • Ceudod bas ond yr esgyrn pin yn amlwg<br>• Ychydig o fraster o dan y croen<br>• Croen yn hydwyth | • Gellir teimlo'r cambylau traws yn unigol (y pennau'n grwn, ddim yn llym) | • Gellir eu canfod yn unigol (crwn a dim yn llym) |
| 3 | • Gorchudd o fraster dros y bôn i gyd<br>• Y croen yn llyfn ond gellir teimlo'r pelfis (wrth bwyso'n gadarn) | • Dim ond wrth roi ychydig o bwysau y gellir teimlo pennau'r cambylau traws<br>• Pant bach yn y lwyn | • Rhaid gwasgu'n gadarn er mwyn teimlo'r asennau unigol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | • Wedi ei lenwi i gyd â phlygion a darnau o fraster, ond yn teimlo'n feddal | • Ni ellir teimlo'r cambylau (ymddangos yn hollol grwn) | • Plygion braster yn datblygu dros yr asennau |

Y PRIF RESYMAU DROS REOLI CYFLWR CORFFOROL

Y nod ydi gwneud yn siŵr bod y buchod :

- ddim yn rhy dew adeg lloia
- yn cynhyrchu cymaint o laeth â phosib
- yn ddigon iach i ddechrau'r gylchred fridio mor fuan ar ôl lloia â phosibl, a dod yn gyflo'n fuan

| Sgôr cyflwr corfforol buwch | % Beichiogi i'r tarwa cyntaf |
|---|---|
| 1 | 35 |
| 2 | 55 |
| 3 | 70 |
| 4 | 60 |
| 5 | 50 |

- codi pwysau a gwella cyflwr pan mae'r porthiant rhataf ar gael (porfa fel arfer)
- defnyddio cyflwr corfforol i leihau costau porthiant drud (yn enwedig yn y gaeaf)

TARGED SGORAU CYFLWR CORFFOROL AR GYFER BUCHOD A HEFFROD

| | Lloia yn yr Hydref | Lloia yn y Gwanwyn | Lloia yn yr Haf |
|---|---|---|---|
| Lloia | 2.5-3.0 | 2.0-2.5 | 2.0-2.5 |
| Tarwa | 2.5-3.0 | 2.5 | 2.5-3.0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Troi allan | 2.0 | 2.0 | 2.0 |
| Llety | 2.5-3.0 | 3.0 | 2.5 |

*Darlun* – HCC Maethu Gwartheg Cig yn Ymarferol tud 4 *a / neu (yn well) EBLEX Beef Action for Profit 18 tud2*

FFYNONELLAU GWYBODAETH

Defra (2001) *Condition Scoring of Beef Suckler Cows and Heifers*

HCC (2007) Gwneud y Gorau o’ch Buches Sugno

*Gweithgareddau wedi eu seilio ar y darlun uchod*